CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

CYF. 5. RHIF 12.] RHAGFYR, 1905. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

NODION Y MIS.
HAU A MEDI.
E. Ceredig Jones, M.A., Bradford.
YR UNFED AWR AR DDEG.
Y BOD O DDUW.
URDDIAD Y PARCH. DAVID DAVIS, CASTELL-HYWEL.
ANN CERIDWEN REES, M.D.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA :

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. . Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c. ; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

SHOP Y JONES, LLANDYSSUL.

BEN JONES,

DRAPER, GROCER, IRONMONGER, &c.

Ladies' Jackets and Gent's Coats of every description at Lowest Prices.

Guns from £1 to £10. Cartridges by all the well-known makers

Try our Special Indian Tip Tea 1s. 8d. per lb.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

Guns, Pistols and Ammunition by John Hall, Curtis & Harvey, Eley's Nobel's and Kynock's.

FENCING, BARB AND NETTING WIRES.

District Agent for British and Foreign Bible Society.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel
Prifathraw: T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts), Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts) ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution.

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £10 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg 'Gymnasium,' Cychod, 'Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden, a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E. A. Carpenter.

Am Prospectus a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

J. H. Davies, Registrar.

T. E. JONES & CO.,

ESTABLISHED 1852.

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

London House, Llandyssul.

Children's Millinery & Costumes always in Stock.

B. MORRIS,

MILLINER,
& FANCY DRAPER,

Wedding & Mourning . . . . . Orders Promptly Executed.

Grand Assortment of Winter Millinery now shown.

Ordination Outfits Completed.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

LINCOLN HOUSE, Llandyssul.

Liveries and Breeches Making.

An assortment of Raincoats, Waterproof Coats & Ladies' Jackets, and Boys' Ready-made Suits always in Stock.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.



"Our Watches have stood the Test of Time."

They are made of honest materials and perfect workmanship.

They are strictly moderate in price.

They are fully guaranteed, and are backed up by an excellent reputation of

Forty Years' Standing.

Call and inspect our varied Stock, or write for a selection to be sent free "On approval" at the shortest notice.

D. JONES & SON,

WATCHMAKERS, JEWELLERS, & OPTICIANS,

LLANDYSSUL.

We have always on view a large and tasty Stock of Wedding and Birthday Presents in Gold, Silver, and Electro-Plate.

PONTYPRIDD MEWN PENBLETH!

Trwy lafurus gariad gweinidogion y cylch, a zel di-ildio lleygwyr y lle sefydlwyd

ACHOS UNDODAIDD YN PONTYPRIDD

yn 1892—tair blynedd-ar-ddeg yn ol. Bywyd crwydredig, digartref yw bywyd yr achos wedi bod o hyny hyd yn awr ; ar un adeg mewn *theatres*, adeg arall mewn *halls* o bob math a maintioli.

Cyferfydd y gynulleidfa yn bresenol mewn goruwch-ystafell, fel y disgyblion boreuol. Bellach mae'r ystafell wedi myn'd yn rhy fach at eu gwasanaeth ; mae rhaid cael mwy o *elbow room.* Pwrcaswyd *site* capel oddeutu deunaw mis yn ol am £500, ac y mae adeilad a gostia oddeutu £800 eisoes yn y cwrs o'i adeiladu. Er nad yw y gynulleidfa ond un fechan, ac yn perthyn yn hollol i'r dosbarth gweithiol, y mae wedi cyfranu £200 at y £1,300 angenrheidiol. Gwneir taer apêl at Undodiaid Cymru i roddi cynorthwy arianol fel cefnogaeth i'r rhai sydd yn codi i fynu faner

CREFYDD RYDD IESU

yn y lle poblog hwn.

Bydd un o swyddogion yr eglwys yn galw arnoch yn fuan, a gobeithio y rhoddir gwrandawiad i'w hapêl

Yr eiddoch yn frawdol,

Ar ran y Pwyllgor,

SIMON JONES (*Gweinidog*).

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1905. [CYF. V. RHIF 12.

NODION Y MIS.

GOLYGFA dorcalonus oedd hono yn Llundain ar y 6ed o Dachwedd, pan y darfu i luaws o fenywod allan o waith, i orymdeithio at Mr. A. J. Balfour, er ceisio ganddo ddiwygio Deddf y Diwaith (*Unemployed Act*), a gwneud darpariaeth arianol gwell fel y gallo y ddeddf gael ei chario i weithrediad llwyddianus gan y gwahanol Fwrdeisdrefi, yr hyn sydd yn anmhosibl o dan yr amgylchiadau presenol. Ceisiodd Mr. Balfour ddangos ei gydymdeimlad a'r benywod anffortunus, ond nis gallai addaw cario ei gydymdeimlad i ymarferiad trwy bleidio y llywodraeth i roddi help arianol. Paham? Onid swydd llywodraeth, sydd yn dybiedig yn cynrychioli y werin, ydyw gofalu nad oes un bod dynol yn marw o newyn os ydyw yn foddlon gweithio am ei fara beunyddiol? Mae y llywodraeth wastraffus hon wedi gwario yn agos dri chan miliwn o bunau o arian y wlad ar y rhyfel ysgeler a dialw-am-dano yn Neheubarth Affrig, ac wedi cynyddu y draul flynyddol yn ein gwlad yn agos i'r dwbl, a hyny yn benaf ar arfau rhyfel; ac heddyw pan mae galwad oddiwrth ddynoliaeth am gynorthwy nis gall hebgor ychydig filoedd er cadw y blaidd allan o dai bychain trigolion diwaith ein trefydd mawrion. Onid oes yma gamwri enfawr mewn gosodiad o'r fath, ac hyd yn nod acen rhagrith yn swnio hefyd yn y glust.

Ar y 9fed o'r un mis, yn ngwledd yr Arglwydd Faer yn y Mansion House yn Llundain, cyflwynodd Mr. Balfour yn garedig iawn drigolion diwaith y deyrnas i sylw arbenig cyfoethogion hael-galon ein gwlad. Ac fel pe mewn atebiad i'r gwahoddiad, ac er cyfeirio y ffordd i'r gwan yspryd, mae ein grasusaf Frenhines a'i chalon yn

curo mewn cydymdeimlad a dynoliaeth mewn caledi, wedi agor trysorfa er cynorthwyo y diwaith, ac wedi tanysgrifio dwy fil o bunau fel cychwyniad i'r drysorfa, ac mae yn apelio at yr haelionus am gynorthwy trwy'r deyrnas er cario i weithrediad yn benaf Ddeddf y Diwaith. Amcan daionus a Christionogol ydyw. Yn ystod y blynyddau diweddaf mae y wlad wedi ei gwaghau o'i phoblogaeth, a llawer o'r hen fwthynod a'u magwyrydd wedi syrthio, ac fe allai mai da oedd i lawer o honynt syrthio. Ond mae'r cri yn cael ei chodi heddyw, "yn ol i'r wlad." Mae y bobl sydd wedi rhuthro i'r trefi er mwyn gwella eu hamgylchiadau, lawer o honynt yn clemio, ac ystyrid y gallai miloedd o'r rhai hyn, mewn tyddynod bychain a gerddi yn agos i'r trefi mawrion, enill eu bara yn gysurus pe baent ond cael y cyfleusdra. Ac yn aml gorfodir y trigolion allant enill eu bara fyw yn y trefydd mewn tai sydd mor fach ac o dan amgylchiadau sydd yn beryglus i'w iechyd corfforol a moesol.

Nid ydyw Abersychan ond lle bychan, ond mewn un rhan o hono mae 441 o'r trigolion yn byw mewn tai sydd yn waradwyddus o fychain. Mewn unarddeg o dai nid oes yno ond dau can' troedfedd o le i awyr, pan mae y *Local Government Board* yn gofyn tri chant, ac mewn rhai o'r tai yr oedd pedwar ar bymtheg yn cysgu yn ddiweddar. Mae yno wyth ar hugain o'r tai a dim ond un ystafell i fyw ynddi, a dwy ystafell wely, ac yn y mwyafrif o'r tai hyn mae deg o drigolion. Mewn llawer o ardaloedd y gweithfeydd nid ydyw y gwelyau byth yn oeri. Mor gynted ac mae yr ystafell fechan wedi ei gwaghau o chwech neu ragor o fobl, mae rhai ereill yn cymeryd eu lle, ac yn aml mae y merched a'r meibion a'r lodgers yn cysgu yn yr un ystafell. Y rhyfeddod ydyw, nid fod anfoesoldeb gymaint, ond mor ychydig, a thystiolaethir fod y sefyllfa mor waradwyddus am fod y tirfeddianydd yn codi cymaint o rent am y tir. Mae eraill yn adeiladu tai ar ei dir nad ydyw yn aml yn werth mwy na choron yr erw fel tir amaethyddol; mae arian eraill yn cael eu gwario ar y gweithfeydd, ac mae y tirfeddianydd, heb wneud dim er dwyn y cyfoeth i'r ardal, yn codi ychydig bunoedd y flwyddyn am ychydig latheni o'r tir, a thrwy hyny yn peri i filoedd o bobl fyw o dan amgylchiadau sydd yn beryglus i iechyd a moes.

Eglur ydyw mai swydd gyntaf y llywodraeth Ryddfrydig nesaf fydd ceisio dwyn ei holl athrylith a'i gallu at y cwestiynau cymdeithasol sydd yn gwthio eu hunain i sylw y cyhoedd, a cheisio eu penderfynu er hawddfyd y werin. Mae iachawdwriaeth yn ddiamheu yn gaffaeliad mewnol, ac nis gall unrhyw nifer o ddeddfau seneddol wneud dyn yn gadwedig. Myn rhai fyw bywyd anfoesol mewn palasdai, ond mae yn ein gallu i wneud yr amgylchedd yn iachus a'i ddwyn i gydgordiad a'r enaid. Os llwydda crefydd i gadw yr enaid

ar lwybr dyledswydd a'i achub rhag suddo i fudreddi anfoesoldeb, mae iechyd y corff wedi'r cyfan yn ymddibynu yn uniongyrchol ar iachuswydd yr amgylchedd. Rhaid i'r enaid iachus drigianu mewn corff iachus. ac anghenrhaid ydyw awyr iachus os am gorff iachus, ac mae hyny yn anmhosibl o dan yr amgylchiadau nodwyd uchod.

Mae mwy na haner can' mil o bobl yn marw bob blwyddyn yn Lloegr a Chymru o'r darfodedigaeth. Heddyw mae dau can' mil o'n cydwladwyr yn dioddef o'r anhwylder hwn, a dedfryd marwolaeth wedi ei chyhoeddi uwch eu penau. O'r marwolaethau rhwng yr cedran pump ar hugain a phymtheg ar hugain mae yr haner yn ddyledus i'r darfodedigaeth. Ac mae un enwog yn tystiolaethu y byddai haner y marwolaethau yn cael eu hebgor pe bai y bobl ond agor y ffenestri. Yn y rhyfel rhwng Japan a Rwssia lladdwyd 50,000 o filwyr Japan. Condemnia pob gwir Gristion ryfel fel ffieiddbeth gwaradwyddus. Eto yn Lloegr a Chymru mae 50,000 o'r trigolion yn marw o'r darfodedigaeth bob blwyddyn, ac mae yn arswydus meddwl fod 25,000 o'r rhai hyn yn cael eu lladd o ddiffyg agor y ffenestri.

Ystyrid unwaith fod y darfodedigaeth yn etifeddol, ond camsyniad ydyw. Mae yn rhedeg mewn teuluoedd am fod un aelod o'r teulu yn ei gael oddiwrth aelod arall, neu am fod yr oll o'r aelodau yn byw o dan amgylchiadau sydd yn ffafriol i ddatblygiad yr anhwylder. Rhyw fath o *microbe*, neu greadur bychan, wrth ffurfio *tubercle* sydd yn bwyta yr ysgyfaint neu ranau eraill o'r corff ac yn achosi y darfodedigaeth, a gelyn gwaethaf y *tubercle* ydyw awyr bur. Cauir y ffenestri er cadw yr oerfel ac yspeilwyr allan o'n tai, ond wrth wneyd hyny yr ydym yn cau ein hunain i fewn yn nghwmni yspeiliwr gwaethaf bywyd sydd yn ddistaw ord yn sicr yn ein lladd. Ofnwn bechu yn erbyn y ddeddf foesol; dylem hefyd ofni pechu yn erbyn deddfau iechyd, canys Duw sydd wedi ordeinio y naill fel y llall. Bydded i ni ofni fel yr ofnwn y llofrudd sydd yn lladd y corff, neu y pechod sydd yn andwyo yr enaid, yr ystafell wely sydd yn wenwyn perffaith i'r cyfansoddiad, os heb ffenestr yn agored ddydd a nos i awyr iachus. Os am fod yn gymwynaswyr dynoliaeth awn drwy y byd gan bregethu efengyl awyr iachus.

Ar yr unfed ar hugain o fis Medi bu farw Dr. Barnardo, un o gymwynaswyr plant amddifaid a diymgeledd. Bwriadai Dr. Barnado pan yn ieuanc i fyned allan fel cenhadwr i China. A phan yn parotoi ei hun fel meddyg yn yr yspytty yn Llundain, casglai yn yr hwyr

blant diarddel y brifddinas yn nghyd i ystabl, er mwyn eu haddysgu, ac yno deallodd fod llawer o blant Llundain yn cysgu allan yn y nos. Mewn cyfarfod yn y Neuadd Amaethyddol dywedodd y stori am y plant, a boreu dranoeth yn y newyddiaduron, darllenodd pobl Llundain hanes yr hyn gymerai le yn eu mysg. Cafodd Barnardo wahoddiad i giniaw gyda'r dyngarwr bydenwog, Iarll Shaftesbury, ac ar ol ail adrodd yr hanes cynygiodd yr Iarll eu bod oll yn myn'd mewn cerbydau i'r man lle yr oedd y bechgyn yn cysgu. Ar ol cyrhaedd y fan nid oedd un o'r bechgyn i'w gweled. Dywedodd gwr y got las wrthynt am gynyg dimai yr un i bob bachgen ddaethai i'w hol, ac yn y fan wele driugain a thri ar ddeg o fechgyn yn dyfod allan o flychau a bareli ac yn sefyll o dan oleuni y lampau ar yr ystryd.

Y canlyniad oedd i Dr. Barnardo gael cynorthwy i gychwyn cartref i blant amddifaid yn Llundain, ac agorodd hwn heb ddimai yn y banc ; ond yr oedd gan Barnardo ffydd fod ei achos yn un da ac y byddai yr arian yn sicr o ddyfod o rywle, ac hyd yn hyn maent wedi dyfod. Y tanysgrifiad cyntaf a gafodd oedd chwech cheiniog a thair ffyrling oddiwrth forwyn. Heddyw mae saith mil o blant yn nghartrefi Dr. Barnardo, ac mae y bwyd yn costi bob dydd ddau cant o bunau. Mae pymtheg mil o blant wedi eu danfon i Canada. Dywedwyd rhai pethau hallt am Dr. Barnardo, ei fod yn proselytio, ac wedi cymeryd rhai plant i'w gartrefi nad oedd hawl ganddo. Ond hawdd maddeu iddo, os darfu ei or-sêl dros y plant ei yru i fod yn fyrbwyll weithiau, ac nis gellir llai na meddwl fod geiriau Crist yn gymhwysiadol iddo. "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

Mae llyfr yn dwyn y teitl "A Historic View of the New Testaament," gan Proff. Percy Gardner, Litt.D., yn ngeiriau y Sais yn *illuminating volume* (cyfrol llewyrchiadol). Mae yn ffaith fod yna oleu disglaer dysg a dawn yn rhedeg yn rhigyl drwy y llyfr, ac yn rhoddi min ar feddwl pwy bynag a'i darlleno. Mae yn llawn drychfeddyliau newyddion wedi eu gwisgo mewn iaith syml a goleuedig. Mae y safbwynt yn rhyddfrydig a ffres, eto yn llawn parch at y gwirionedd. Costia y gyfrol sydd ger fy mron chwecheiniog, ond mae yn werth chwech swllt unrhyw ddydd. Cynghorwn unrhyw un heb fod yn feddianol ar y gyfrol i wario chwecheiniog mor gynted ag y medro. Gellir ei chael oddiwrth A. & C. Black, Soho Square, London, W.

HAU A MEDI.

Pregeth draddodwyd yn Nghyfarfod Chwarterol yr Hydref yn Rhydygwin,

GAN Y PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A., BRADFORD.

(*Parhad o Rhifyn Tachwedd*).

Dyg hyn ni at yr ail syniad a awgrymir gan ein testun, sef y sicrwydd o ddyfodiad y cynhauaf. Gan y gohirir gwobr amynedd yn dra mynych, mae ar bawb a lafuriant yn ngwinllan yr Arglwydd angen ffydd gref. Mae yr hwsmon a haua hâd yn y gwanwyn yn llafurio mor effeithiol oherwydd fod ganddo ffydd yn nhrefn Rhagluniaeth, y bydd i Dad y trugareddau fod yn sicr o roddi iddo y cynydd. Dichon fod rhai o honoch chwi wedi bod yn hau hâd da am flynyddau mewn cysylltiad a rhyw *achos da* yn yr hwn y cymerwch ddyddordeb, a'ch bod ar rai gweithiau yn barod i gredu na ddaw y cynhauaf byth. Nid oes eisiau i chwi wangaloni. Mae llwyddiant yn sicr o ddilyn pob ymdrech dda. Mae yn hen ddywediad y daw pob peth i'r hwn a ddyfal ddisgwylia am dano; a'r ffordd oreu i ddisgwyl am unrhyw beth ag sydd werth ei gael yw dyfalbarhau i weithio am dano. Felly gall pob un a lafuria yn ffyddlon mewn yspryd iawn, a chyda diben da mewn golwg, deimlo yn berffaith sicr, y bydd i'w waith i lwyddo, a'r cynhauaf i ddod pan rydd Duw iddo ei wobrwy.

Pan fyddom yn barod i flino disgwyl, byddai yn ddoeth i ni gofio mai y pethau goreu yw y rhai a gymerant fwyaf o amser i'w dwyn i addfedrwydd. Mae hyn yn ffaith yn y byd materol yn gystal ag yn y byd ysprydol. Gallwch wneud gemau tebyg i ddiamwnt mewn ychydig oriau ond nid ydynt fawr o werth. Mae wedi cymeryd miliynau o flynyddoedd i gynyrchu'r gwir ddiamwnt yr hwn yw y tlysaf o'r meini gwerthfawr. Gallwch dyfu *bwyd y barcud* mewn un noson, ond gwna'r dderwen, yr hon sydd yn addurn i'r llanerch lle tyfa, gymeryd canrifoedd i gyrhaedd perffeithrwydd. Diflana bwyd y barcud mewn diwrnod ond erys y dderwen am fil o flynyddoedd neu ragor.

Felly hefyd mae yn y byd moesol a meddyliol. Yn fynych mae cyfnod maith rhwng yr Hau a'r Medi. Yn fynych gwelwn gynifer o wyr a gwragedd o yspryd difrifol, yn nghalonau y rhai y mae gwir awydd am wneyd daioni, yn cyfarfod a'u dosbeirth o bobl ieuainc yn yr Ysgol Sul o wythnos i wythnos, ac yn ei hystyried yn ddyledswydd i wneyd hyny. Ambell waith, feallai, y tueddir hwynt i feddwl nad yw eu gwaith yn hau hadau rhinwedd yn llawer o bwys, ac ofnant y bydd y cynhauaf yn ysgafn iawn. Dylai y rhai sydd yn cymeryd rhan flaenllaw mewn gwaith da o'r natur yma ddwyn ar gof eiriau yr Apostol: "Yr hwn sydd yn hau yn helaeth a fed hefyd yn helaeth." Yn eu hen ddyddiau byddant yn sicr o ddwyn ar gof eu gwaith, a chant ei fod y prif beth ag sydd wedi bendithio a dyrchafu eu bywydau. Cânt hefyd brofion diymwad nad yw eu gwaith wedi bod yn ofer. Ychydig amser yn ol cyfarfu dau wr ar fwrdd llong ar fordaith i Ddeheudir Affrica.

Datganai yr henaf ei ofid un diwrnod oherwydd fod ffrwyth ei lafur mewn cysylltiad a'r eglwys i'r hon y perthynai mor fychan. Yna dywedodd y llall: "Mae yr addysg foesol ac ysprydol a dderbyniais i pan yn ieuanc wedi bod o fendith anhraethol i mi. Yr wyf yn ddyledus i'm athraw yn yr Ysgol Sul am yr hyn ydwyf heddyw. Pan ymsefydlaf ar ben fy nhaith yr wyf yn penderfynu gwneud fy ngoreu i gynorthwyo ereill yn yr un cyfeiriad." Er ei fawr syndod cafodd yr henaf ar ddeall mai efe oedd athraw ei gyd-deithydd flynyddau yn ol. Felly ar ol llawer o flynyddoedd cafodd brawf tarawiadol iawn fod yr hwn sydd yn hau yn helaeth yn sicr o fedi yn helaeth rhyw ddydd. Y cynhauaf mawr ar gyfer yr hwn yr ydym oll yn hau ydyw Cymeriad; a chymer oes i gynyrchu cymeriad ag sydd wir werth ei gael.

Awgryma hyn i ni yr hyn a allwn ystyried fel y ffurf fwyaf sanctaidd o hau—sef plannu egwyddorion da ar yr aelwyd. Gwyn ei fyd y tad am yr hwn y gall y mab ddweyd: "Duw a'ch bendithio, fy anwyl dad, yr ydych wedi fy addysgu i barchu pob peth ag sydd wir a chyfiawn a da. Yr wyf yn diolch i'm Creawdwr am i mi gael athraw mor ddoeth ac arweinydd mor ffyddlon ag yr ydych chwi wedi bod i mi." Fel ag yr wyf wedi crybwyll yn barod, ardderchog hefyd yw cenadwri y fam. Pan y gwna arfer ei hawdurdod gyda doethineb, mae yn llafurio gyda chanlyniadau, dylanwad y rhai Duw ei hun a ŵyr. Mae coffadwriaeth am rieni duwiol *gyda* ni bob amser fel angel gwarcheidiol i'n hamddiffyn rhag drwg ac i'n hanog i wneyd yr hyn sydd iawn. Braidd yn ddieithriad gellir olrhain cymeriad uchel y rhai ag ydynt wedi cysegru eu bywydau i ogoneddu Duw, ac i ddyrchafu dynoliaeth, i ddylanwadau nerthol cartref rhinweddol, lle ni *oddefir dim* isel a gwael. O dadau a mamau, ni ellwch hau yn ofer. Bydd eich esiampl dda a'ch ffyddlondeb i achos crefydd yn sicr o wneyd eu hol ar gymdeithas. I ddefnyddio cyffelybiaeth ddwyreiniol, mae plant yn dringo i uchelion rhagoriaeth foesol ar yr ysgol yr hon y mae eu rhieni wedi esgyn arni o'u blaen.

Mae hefyd yn un o ddeddfau blaenfynediad os y llafuriwn yn ffyddlon a didwyll er lledaenu egwyddorion pur a gwirioneddol, mae y cynhauaf yn sicr o ddod. Mewn byd lle mae Duw cyfiawn yn teyrnasu rhaid i bob achos da yn yr hwn y cymerwn ddyddordeb, a'r hwn y mae genym y fraint o'i hyrwyddo, yn sicr o lwyddo yn y diwedd, ac nid oes dim ar y ddaear a all ei rwystro yn effeithiol.

Yn fynych mae y rhai sydd yn llafurio yn ddiwyd a ffyddlon yn ngwinllan yr Arglwydd yn cael eu hatal rhag cario allan eu dymuniadau. Ni chant fedi pan y dewisant. Mae milwyr goreu Duw wedi cyfarfod ag anhawsderau yn mhob oes o'r byd, ond y mae y gwaith da yn myned yn mlaen o hyd. Drwy y canrifoedd mae diwygwyr y byd wedi bod yn ymdrechu i symud pob rhith drygioni ac sydd yn anurddo cymdeithas. Yr ydym ni ac sydd yn byw yn yr oes bresenol wedi myned i mewn i lafur y cyfryw. Yn amser erledigaeth bu ein tadau yn hau mewn dagrau yn yr ardal hon. Ond ni ddarfu iddynt hau yn ofer. Cenadwri ddwyfol yr *holl* eglwysi o bob enwad, yn awr, yw dwyn pobl i gredu mai cariad yw Duw, ac i'w hargyhoeddi mai yr offrwm oreu allwn roddi iddo yw caru ein gilydd fel brodyr a chwiorydd anwyl. Gyfeillion hoff! disgynyddion yr hen dadau a'r hen famau anwyl yn Israel, a fuont mor ffyddlon i achos crefydd yn yr ardal hon, yr wyf fi yn credu â'm holl galon, mai cyn wired a bod amser Hau yn cael ei ganlyn gan amser Medi, y bydd i'r cynhauaf mawr i dd'od, pan y bydd i holl deyrnasoedd y ddaear ddyfod yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef. "Dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd: canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef. Yspryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef addoli mewn yspryd a gwirionedd."

Mae ar Dduw ein heisieu—bob un

o honom—i ddwyn oddiamgylch yr amser gogoneddus hwn; ac er, fe ddichon, na fydd neb o honom i fyw i weled y cynhauaf yr ydym yn disgwyl am dano, mae yn ddyledswydd arnom i lafurio er mwyn eraill, fel mae eraill wedi llafurio er ein mwyn ni, gan ei hystyried yn ddigon o wobrwy tra yr ydym yma i ychwanegu rhywfaint at ddedwyddwch y byd hardd hwn, lle mae Duw mor dirion a thrugarog i ni. Pan y geilw ein Tad ni i'n cartref tragwyddol, ni all dim anadlu bendith felusach arnom pan yn cau ein llygaid yn awr marwolaeth na'r ymsyniad fod llawer o eneidiau wedi cael eu harwain yn nes at Dduw ac at dragwyddol hedd gan ddylanwad ein cymeriad moesol. Felly drwy *hau* hâd rhinwedd yn nghalonau dynion tra mae genym nerth ni a gawn fedi yn helaeth.

Crwydra ein meddyliau heddyw at gynhauaf nad yw o'r byd hwn. Yma "arall yw yr hwn sydd yn hau ac arall yr hwn sydd yn medi," ond gallwn edrych yn mlaen yn hyderus tuag at wlad well—gwlad y cariad tragywyddol lle y bydd i'r hwn sydd yn hau a'r hwn sydd yn medi lawenychu yn nghyd, ac y cawn weled fel nad ydym wedi gweled erioed o'r blaen, nad ydym wedi hau hâd da yn ofer. Amen.

YR UNFED AWR AR DDEG.

A.—Dewch gyda fi i dŷ John Jones, Hewl y Graig. Mae yn dost iawn—bron marw.

B.—Na ddwa i, beth w i'n mofyn yno?

A.—Dewch, ini gael cynal ticyn o gwrdd gweddi gydag e.

B.—Cwrdd gweddi gyda John Jones, Hewl y Graig; syndod mawr! Beth ych chi'n feddwl? Chlywais i son erioed fod John Jones yn mynd i gwrdd nac eglwys, ac i beth y mynwch chi fynd a chwrdd iddo 'nawr, heb wahoddiad, ac yntau bron marw."

A.—Ydych chi wedi anghofio'r unfed-awr-ar-ddeg?

B.—Nac ydw. 'Rwy'n cofio am y ddameg; ond dwy'n cofio dim fod John Jones wedi gofyn am gwrdd ar yr unfed-awr-ar-ddeg nac un awr arall. A 'nghred i yw mai math o watwar ar grefydd fyddai mynd a chwrdd yno dan yr amgylchiadau.

A.—Ydych chi ddim yn credu y gall Duw achub ar y funyd ola?

B.—Nid w i'n dweyd dim am y peth all Duw; ond chreda i ddim y gwnaiff e ddim fydd yn groes i'w natur a'i ddeddfau ei hun, nac i wir les dyn; ond chreda i ddim llai nad yw syniad o'r fath awgrymwch chwi yn anogaeth i ddynion barhau yn eu pechodau. Mae'n wir y cawn ni'r offeiriad weithiau yn anfon dyn—mewn gwir ddiogel obaith—o'r grogbren i'r nefoedd. Ymddengys i mi, fodd bynag, ei fod yn gwneuthur sarn ar grefydd wrth hyny.

A.—Yr ydych yn cofio Ianto bach y teiliwr gynt, Ianto Moelhadog y gelwid ef weithiau; hwnw foddodd trwy gwympo yn ei feddwdod oddiar bontpren Llwyndyrys. Gwyddoch wrth gwrs ei fod yn bechadur tost; ond ni wyddoch chwi na neb arall beth allai ddigwydd rhwng y bontpren a'r afon.

B.—Nid wy'n amheu dim o ddoethineb Duw na'i gariad; ond 'rwy'n amheu'n fawr rai pethau briodolir gan grefyddwyr ac eraill i Dduw. 'Rwy'n credu'r gwir, Pa beth bynag a hauo dyn hyny hefyd a fed efe;

hyny yw, mai yn ol yr hau y bydd y medi. Nid hau us a medi gwenith. Nid oes yr un ffermwr yn disgwyl peth felly yn y byd naturiol. Choelia i byth y troir pechadur yn sant ar unwaith, y cymhwysir ef megys wrth fflach mellten i'r nefoedd. Cafodd y mab afradlawn ei droedigaeth gynt wrth gafnau'r moch ; ond nid digon hyny i'w gymhwyso i'r nefoedd. Gorfu iddo gefnu ar y cafnau ac ar Babilon ei hen brofiadau, a theithio wrth bob tebyg am hir amser ac am filldiroedd lawer, o gam i gam, ar draed blinion, cyn cael golwg ar fwg simnai ty anwyl ei dad, a phrofi mwyniant y groesaw oedd yn aros iddo gartref. Y mae gwaeddi "Maddeu" yn step yn yr iawn gyfeiriad, ond rhaid wrth ddiwygiad ar ol edifeirwch. Y mae llawer o gaboli yn eisieu ar bechadur cyn ei fod yn gymhwys i'r nefoedd.

A.—Nid wy'n deall.

B.—Tybiwch eich bod chwi megys ar unwaith yn cael eich symud o'ch bwthyn bach gwledig yn nghilfach y mynydd, i barlwr y brenin. Gallai'r brenin fod yn garedig iawn, ond fyddech chi ddim yn gysurus yno. Byddech mewn ofn parhaus rhag i chwi wneuthur rhywbeth allan o le. Byddai'r gwahaniaeth mor aruthrol, ardderchawgrwydd pob peth mor lethol, fel y byddai'n anmhosibl i chwi deimlo'n gartrefol. Yn gyffelyb rhaid cael y "Wisg Briodas," hyny yw, bydd yn rhaid wrth gynefindra ag iaith ac arfer a defod ty ein Tad, rhaid wrth y cymhwysderau angenrheidiol, a math o flaenbrawf o'r nefoedd yma er bod yn hapus yn y nefoedd draw. Nis gellir cael ymwared o bechod, neu o'r anian bechadurus mor rhwydd a phe byddai dyn yn taflu baich o goed oddiar ei ysgwyddau. Pe trosglwyddid y dyn drwg i'r nefoedd yn ei bechod, ni fyddai nefoedd yn nefoedd iddo o gwbl, ond byddai ei ddrwg yn dân uffern yn ei fynwes ac yntau hyd yn nod yn y nefoedd.

"Nid aiff yr aflan byth i'r nef
Mae'r wlad yn groes i'w anian ef."

A.—Sut ynte y byddwch chi'n esponio gwers yr unfed awr ar ddeg?

B.—Nid wyf yn sicr y gallaf wneuthur hyny yn foddhaol ; ond teimlaf yn sicr nad yw yr esponiad poblogaidd ddim yn iawn, a mwy na hyny, credaf fod ei diwedd yn bechadurus, am yr ymddengys i mi ei fod yn cynwys rhywbeth tebyg iawn i anogaeth i bechadur i barhau yn ei bechod. Beth ydyw Uffern yn eich tyb chwi?

A.—Uffern? Cartref tragwyddol colledigion yw, cartref o dân a brwmstan, yn nghwmni'r diafol a'i angylion. Dyna yw'r lle, a dyna yw'r cwmni. Yn ngeiriau un o'r hen feirdd, "Ei llawr yn aelwyd frwdias fawr ; Berwboeth dalpau, Brwmstan-llyd belau, Uffernol ffyrnau, A myglyd meiliau mwll ; A'r seirff yn glymiau gwynias, O gwmpas yn mhob twll."

B.—Mae'r syniad i mi yn wrthun yn yr olwg lythyrenol o hono, ac yn gabledd ar garitor y Tad Goreu. Y dyn sy'n gwneuthur ei Uffern ei hun, a'r dyn sydd yn gwneuthur ei nefoedd ei hun. Nid lle yw Uffern ond cyflwr, nid lle yw nefoedd ond cyflwr. Nid tân a brwmstan materol sy'n gwneuthur uffern, ond cyflwr cydwybod euog wedi ei deffroi i sylweddoliad o hagrwch pechodau ei pherchenog. Nid pell o'i le oedd yr hen Forgan Llwyd o Wynedd (1619—1659). Sylwch yn fanwl ar ei eiriau Fe ddywed fod "Uffern a'r tân a'r nâd a'r tywyllwch yn nghalonau llawer tra fuont yn rhodio y ddaear. . . "Mae Paradwys nid yn mhell oddiwrthyt, ond yn mhob man lle mae cariad Duw yn ymddangos." Ac eto "Mae dydd barn wedi dechreu yn barod yn y gydwybod, ac fe'i datguddir yn yr amlwg pan ymddangoso y Duw mawr. Nid yw ef yn oedi dyfod fel y dywed rhai sydd heb ei ganfod ef, na'i gydnabod yn llenwi'r hollfyd, yn gweled pobpeth, yn barnu'r teyrnasoedd," &c. Fel y dywed Mr. W. Llewelyn Williams yn ei erthygl ragorol yn "Ngheninen" Gorphenaf 1905, "Nid tân a brwmstan oedd crefydd Morgan Llwyd, nid palas gorwych oedd ei nef, nid

llyn yn mygu oedd ei uffern, nid cred oedd crefydd, nid peth gweledig oedd eglwys Dduw."

A.—Nid wyf yn gweled eich bod fymryn yn nes i egluro pwnc yr unfed awr ar ddeg.

B.—Os yw'r ddameg i'w hesponio hyd yn nod ar hyd llinellau'r syniad cyffredin, nis gall yr unfed awr ar ddeg olygu triugain munyd olaf bywyd dyn. A chymeryd oes dyn yn driugain a deg neu bedwar ugain mlynedd i wneuthur y deuddeg awr, cawn drwy hyny chwe mlynedd ar gyfer pob awr, ac felly chwe mlynedd ar gyfer yr unfed awr ar ddeg, ac nid yr ychydig funydau sydd yn gwneuthur i fyny awr olaf ei oes. Ond yr wyf yn methu'n deg a gweled mai yn y cyfeiriad hwn y mae esponiad o ddameg. Nid yw'r pwnc o edifeirwch gwely angeu yn dyfod i fewn o gwbl.

A.—Wel, dowch ynte, sut y byddwch chi'n esponio?

B.—Tybiaf fi fod oriau'r ddameg yn cyfeirio nid at dymhorau bywyd dyn, ond at wahanol gyfnodau yr oruchwyliaeth Gristionogol. Y mae'r gair "Canys" (20: 1) yn ddolen gydiol—chwedl Wm. Evans, Aberaeron, gynt—yn cysylltu'r ddameg a'r ddwy adnod, 19: 30 a 20: 16, ar y dechreu ac ar y diwedd, ac yn eu hesponio. Gellir cyffelybu teyrnas nefoedd i'r modd y mae perchen gwinllan yn trafod ei lafurwyr. Ceir yma barhad o'r ymddiddan yn y benod flaenorol, ac nid hawdd deall y ddameg heb gofio hyny. "Nyni a adawsom bob peth," meddai Petr; ac meddai Iesu yn ateb, "Credwch fi, yn yr adenedigaeth, pan eisteddo Mab y Dyn ar orsedd ei ogoniant, cewch chwithau, y rhai a'm canlynasoch i, eistedd ar ddeuddeg gorsedd yn barnu deuddeg llwyth Israel." Ond peidiwch, fel y dywedasai, peidiwch tybied y bydd y dychweledigion cyntaf, oblegid hyny yn unig, yn fwy cymeradwy na'r rhai sydd wedi eu galw yn ddiweddarach, os yn dangos yr un cymaint zel a ffyddlondeb. Fe ddichon y rhai cyntaf, o ran amser a rhagorfreintiau brofi'n salach na'r rhai diweddarach, a'r rhai olaf a allant felly fod yn flaenaf. Ar ba delerau y mae mam meibion Zebedeus yn hawlio ffafr i'w phlant hi? (20: 21). Y wers, fel yr ymddengys i mi yw, mai mesur gwerth caritor fydd mesur rhagoriaeth un dyn ar y llall, ac nid cysylltiad a'r adeg neu'r oes y digwyddo dyn gael troedigaeth ynddi. Ymddengys yr esponiad cyffredin yn debyg fel pe byddai dyn yn hawlio cyflog nos Sadwrn pan heb wneuthur dim gwaith y dyddiau blaenorol. Dywed rheswm mai yn ol y gwaith y dylid disgwyl y tâl; yn ol yr hau y bydd y medi. Nid oes rheswm mewn fod dyn yn rhoi gwenith, neu wasanaeth goreu ei fywyd i'r Gwr Du, ac yna yn y diwedd yn cynyg yr us, neu weddill di-yni a di-waith ei fywyd i Dduw. Cofier felly mai cyflwr sydd yn gwneuthur nefoedd, cyflwr sydd yn gwneuthur uffern. Fe ddylai fod yn ymgais pob dyn sydd am fod yn wir Gristion i wisgo ei hun â gostyngeiddrwydd ac â holl rasusau y bywyd ysprydol.

J.B.I. COFIADUR.

J. A. FROUDE.—Pan y gofynodd ei frawd, Hurrell, iddo unwaith beth ddigwyddai pe gelwid ef yn ddisymwth i ymddangos yn mhresenoldeb Duw, atebodd Antony, ei fod ef yn mhresenoldeb Duw yn barod, o'r boreu hyd nos, ac o'r nos hyd y bore.—*Life of Froude by Paul.*

Y BOD O DDUW.*

Mae enw y diweddar R. A. Armstrong yn adnabyddus i'r byd, nid fel gweinidog parchus a gweithgar—canys gwaith yn unig a'i gyrodd i fedd mor gynar—gan yr Undodiaid yn eglwys Hope Street, Lerpwl ; nid ychwaith fel meddyliwr dwfn a gwreiddiol ei hun, nac hyd yn nod fel un gafodd y fraint a'r cyfrifoldeb o ddadleu yn gyhoeddus a'r anffyddiwr enwog a phoblogaidd, Charles Bradlaugh, yr hwn a ddywedodd am dano ei fod wedi cael llawer o foddhad ynddo, ond yn fwyaf neillduol erbyn hyn fel esponiwr medrus a dealladwy ar weithiau James Martineau. Gŵyr y sawl sydd wedi ceisio darllen y "*Study of Religion*" a'r "*Seat of Authority*" mai nid gorchwyl hawdd yw dilyn yr ymresymiad sydd yn awr yn ein harwain i lawr i ddyfnderoedd deall a rheswm ac yna i fynu i uchelderau teimlad ac ysprydoliaeth.

Llawer un, yn flinedig gan y gwaith, ac wedi methu yn yr ymdrech, sydd wedi pasio dedfryd galed ar yr hen athronydd a chondemnio ei waith fel cruglwyth o ddyryswch anobeithiol. Ond megis ag y mae rhaid wrth offerynau cryfion cyn treiddio trwy'r disgleirdeb i ddirgelion yr haul, felly hefyd yn unig y bydd y rhan fwyaf yn alluog i olrhain symudiadau meddwl mawr Martineau. A'r offeryn sydd genym at yr olaf yw Mr. Armstrong. Darllenir llyfrau bychain y disgybl ar ei athraw parchus ac anrhydeddus gan luaws o ganlynwyr yn y wlad hon, ac yn enwedig yn yr Unol Dalaethau a Japan. Yn wir mae yna berygl mawr i'r gwreiddiol gael ei esgeuluso gan mor eglur gesyd Mr. Armstrong ei brif feddyliau allan. Wrth ei ddarllen bydd y geiriau yn cyfleu'r meddwl ar unwaith, ond am Martineau, ar ol ei ddarllen trosodd a throsodd yn aml iawn byddwn wedy'n heb ei ddeall. Er hyny os llwyddo wnawn fe fydd y wobr yn ddigon am y drafferth.

Ychydig amser cyn ei farwolaeth cafodd Mr. Armstrong ei benodi i draddodi cyfres o ddarlithiau er lledaenu egwyddorion crefydd ryddfrydig, A ffrwyth y penderfyniad yna o eiddo y Gymdeithas Undodaidd yw y llyfr sydd genym dan sylw. Dewisodd yr awdwr destyn oedd wedi bod yn gynefin iddo, bron holl ddyddiau ei fywyd. Yr oedd ei feddwl aeddfed wedi ei drwytho ganddo. Swm y llyfr mewn un gair yw "Bodolaeth Duw." Nid yw y testyn yn newydd oddieithr fod y drafodaeth o hono yn cael ei chyfyngu i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac o fewn terfynau y wlad hon. Y cwestiwn hwn mewn rhyw ffurf neu gilydd sydd yn gorwedd wrth wraidd holl grefyddau'r byd. Amcan bywyd yn ol rhai ydyw chwilio am Dduw. Dywed Paul y darfu iddo wneud o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar wyneb yr holl ddaear, "fel y ceisient yr Arglwydd *os* gallent ymbalfalu am dano Ef a'i gael er nad yw Efe yn ddiau nepell oddiwrth bob un o honom." Fe ddybyna llawer ar y gair bychan *os* yn y dyfyniad. Ond i ni sefyll am foment ar ben rhyw fryn cyfarwydd i ni yn nystawrwydd y nos, a chodi ein golygon i fynu tua'r nefoedd lle mae bydoedd aneirif yn cartrefu yn y gwagder difesur, lle mae y planedau mawrion yn teithio, rai o honynt am ganoedd o flynyddoedd cyn dychwelyd i'r un pwynt a phob un o'r rhai yma yn gweithio wrth ddeddf nad yw bosibl iddynt dramgwyddo yn ei herbyn, cyfyd y gofyniad ar unwaith, a oes yna

* *Agnosticism and Theism in the Nineteenth Century*, gan R. A. Armstrong, B.A., tud. 207. Philip Green.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGWYR—

Y PARCH. W. JAMES, B.A., Y.H., A T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

BARDDONIAETH : T. J. THOMAS, YSW., B.Sc., YSGOL SIROL, ABERTILERI.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 5.
1905.

LLANDYSSUL :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

A ydych wedi eich achub ? 5.
Abraham Rees, Dr. 166.
Adolygiadau, 12, 40, 47, 58, 114, 132, 141, 208, 254, 257.
Adran yr Ysgol Sul, 42, 96, 119, 134, 144, 160.
Addysg, Y Frwydr, 4, 169.
Agnosticism and Theism in the 19th Century, 274.
Allen Raine, 69.
Arlywydd, Pregeth yr, 240.

BARDDONIAETH :—
Beddargraff Mocyn Deiliwr, 236.
Beibl, Y, 236.
Bwlchyfadfa, Penillion ar osodiad maen coffadwriaethol y Capel Newydd, 183.
Capel Newydd Brondeifi, Pedwar Penill, 64.
Cariad, 167.
Cyffes yr Edifeiriol, 88.
Diwedd Blwyddyn, 283.
Dull y byd yn myned heibio, 167.
Gofal Duw, 284.
I Gyfaill Diwylliedig, 262.
In Memoriam, 283.
Maddeuant Pechod, 167.
Pan wna'r niwloedd, &c., 284.
Parch. R. J. Jones, M.A. pan yn cyrhaedd ei 70ain oed, 236.
Penillion, cyflwynedig i Mr. Thomas Davies, y Felin, Cwrtnewydd, 239.
Pethau Anmhosibl, 283.
Taith y Pererin, 283.
Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt, 283.
Yr Anweledig islaw y gweledig, 64.
Y Dangos-lun, 283.
Y Deffro, 8.
Y Seren Ogleddol, 283.
Y Wiwer a'r Mynydd, 284

Barnardo, Dr. 267.
Bedyddwyr a'r Ysprydd Glan, 46.
Bradlaugh ac Armstrong, 33.

Capelygroes, Cyfarfod Dyddorol yn, 232.
Congl Gwybodaeth Gyffredinol, 23, 47, 68, 90, 116, 140, 163, 240.
Crefydd Boneddwr, 254.
Cwestiwn y Diwaith, 265.
Cyfarfod Chwarterol, Y, 91, 111, 244.
Cymanfa Ganu 1905, 188, 212.
Cymanfa Gerddorol Unedig Morganwg a Cheredigion, 159, 191.

Daioni Tragwyddol, Y, 229.
Dameg y Tato, 230.
Darfodedigaeth, Y, 267.
Davis, J. Tyssul, 92. 118.
Davis, Urddiad y Parch. David, 276.
Dduw, Y Bod o, 274.
Deonglwr, Y, 122.
Derfisiaid, Capel y, 196.
Dirwest, 9, 55.
Diwygiad, Y, 2, 97, 171.
Diwygiad, Y, Beth am dano ? 15, 46, 49, 52.
Diwygiad, Rhai o agweddau y, 198.
Diwygiad, Ymgom ar y, 35.
Dringfa St. Awstin, 76, 100, 148, 193.
Duwinyddiaeth yr Hen Destament, 123.
Dduwinyddiaeth Newydd, Y, 157.

Eglwys y Dyfodol, 257.
Eglwysi, Cyngrair yr, 282.
Eliot, Dr. Chas, 263.
Evan Roberts yn Lerpwl, 7, 97.
Evans, Dr. Gwenogfryn, 190.

Ffyddlondeb i'r Faner, 20.

Geneva, Cyfarfodydd, 219.
Geninen, Y, 45, 190.
Gweddi Fenelon, 8.
George, John Joseph, 87.
Gweinidogaeth Poen, 29.
Gwersi ar yr Actau, 40.
Gymdeithas Ddirwestol, Y, 226.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 91, 111, 119, 169, 184, 186, 238, 241.

Hau a Medi, 245, 269.
Hen Gorph, Syniadau Undodaidd yn Eglwysi yr, 144.
Hermann, Proff, Marburg, 151, 205.

Hibbert Journal, Yr, 166, 211, 218, 259.

Jenkins, T. J. Cwrdd Ymadawol, 62.
Jones, Morlais, 263.

Liberal Christianity, 132.
Lincoln Centre Chicago, 215.
Lodge, Syr Oliver, a'r Esgobion, 93.
Llwynrhydowen, Yr Ymraniad yn, 168.
Llyfr mawr ar destyn mawr, 155, 223.

Mackennal, Dr. 263.
Manion ac Hanesion, 23, 69, 91, 117, 141, 165, 185, 213, 235, 262, 281.
Martineau, Dr. 73.
Martineau, Dr. Canmlwyddiant, 103.
Martineau, Dr, Athroniaeth Grefyddol, 126.
Martineau, James, and his greatest Book, 114.
Martineau, James, Theologian and Teacher, 155.
Marwgofion, 21, 41, 65, 89, 115, 164, 185, 233, 261, 280.
Merch yn y Weinidogaeth, 93.
Merthyr Express, 92.

Nadolig yn yr Almaen, 53, 82.
Natur Dyn a'i Dynged, 84.
New Testament, A Historic View of the, 268.
Nid a Rhinwedd byth i'r bedd, 227.
Nodion y Mis, 1, 49, 73, 97, 121, 145, 217, 265.
Nyth y Fran, 30, 79, 103.

O For i Deifi, 38, 60, 107, 136, 180, 248.

Paham yr wyf yn Undodwr? 264.
Peabody, Francis, 263.
Peake, Proff., a'r Hen Destament, 50
Pethau yn symud, 70.
Pastoral Theology and Science, 12.
Pregethau gwerth eu darllen, 209.
Priodasau, 21, 41, 65, 139, 260.
Pwlpud y Beirdd, 58.

Rees, Ann Ceridwen, 279.
Rhaglen Addysg Foesol a Beiblaidd, 74.
Richard Acland Armstrong, y Parch 30, 79.
Robinson Crusoe a'r Diafol, 25.

Schiller, Canmlwyddiant Genedigaeth, 125.
School Teaching and School Reform, 208.
Sirioldeb Crefyddol, 173.
Spiritual Life the Goal of Nature, 84.
Spurgeon, Llyfrgell, 282.
Supremacy of Jesus, The, 85.

Traethodydd, Y, 45, 141.
Torrey, Dr. a Dr. John Watson, 72.
Torrey, Dr. eto, 215.

Undodiaid Aberystwyth, 45.
Undodiaeth yn Aberystwyth, 129.
Uwchafiaeth yr Iesu, 85.

Wace, Dr. a'r Archesgob, 75.
Walden, 47.
Where does the sky begin? 209.
Whittier a Chân y Daioni Tragwyddol, 238.

Yr Unfed awr ar ddeg, 271.
Ysgol Sul, Angenion a Delfrydau yr, 220, 251.
Yspryd Glan, Personoliaeth yr, 239.

Dduw neu ryw allu byw ymwybodol tu ol i'r cyfan? O ba le mae meddwl dyn wedi tarddu a'r holl wrthrychau ydynt yn chwareu fel pe bai ar y llwyfan o'i flaen? A chaniatau fod deddf fawr datblygiad yn cyfrif am yr holl ymddangosiadau, eto fe erys y gofyniad—O ba le? A oes yna awdwr i'r peirianwaith rhyfedd hwn? Cawn dri o wahanol atebion. Y cyntaf a ddywed nad oes yna y fath allu yn bodoli o gwbl. Dyna'r *atheist*. Nid oes eisiau i ni aros gyda hwn canys nid yw yn bodoli mwyach ond yn mherson ambell i un a gymer y gair yn glogyn i'w anwybodaeth a'i ddifaterwch. "Y ffol yn unig a ddywed yn ei galon nad oes Dduw." Arall a ddywed, fod yna y fath allu a'i fod yn cyniwair trwy'r holl greadigaeth. Dyna'r *theist*. Y trydydd a etyb nas gwyddom, ac hyd yn nod pe bai yna Dduw nad yw yn bosibl i ni wybod dim am dano na'i weithrediadau. Dyna'r *agnostic*. Yn awr a'r ddau olaf y mae a fyno llyfr Mr. Armstrong yn benaf. A gofyna'r ddau ddosbarth lawer o barch wrth ymdrin a hwynt, am y perthyn i'r naill a'r llall o honynt enwau fyddant yn aros yn addurn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn oesau pell i ddyfod.

Agnostics gyda rhywfaint o wahaniaeth oedd Spencer, Huxley, Tyndall, Mathew Arnold, Shelley a Bradlaugh. Enwau ydyw y rhai hyn i gyd yn deilwng o'r parch mwyaf ac fe erys y goffadwriaeth am danynt yn felus o hyd. Trwy gloddio i lawr o dan ofergoeliaeth a gwag gredoau duwinyddiaeth y canoloesau, gwnaethant fwy dros wir grefydd a pharotoisant y ffordd i ddealltwriaeth well o Dduw na'r rhan fwyaf o gredinwyr mwyaf pybyr. Chwilio am y da trwy chwalu'r gau o hyd oedd eu hamcan. Fe ddarniodd Bradlaugh lawer i hen eilun oedd wedi aros am oesoedd fel gwrthrych addoliad. Rhaid tynu hen adeilad i lawr cyn dechreu codi un newydd. Nid gwaith pleserus yw bob amser. Mae'r sawl a ymgymero ag ef yn agored beunydd i wawd a dirmyg y torfeydd a'r awdurdodau, ac onibai am well deddfau, tebyg mai "anathema" ac "ymaith ag ef" fuasai yn aml yn rhoddi terfyn ar y ddadl.

Tuedd dyn yn barhaus yw chwilio am ffeithiau ac achosion i bethau. Ond er holl fawredd dyn, bod meidrol yw ac mae yna berygl iddo wrth edrych gormod i un cyfeiriad anghofio fod y fath beth ag anfeidroldeb yn bosibl. Dywed Tyndall, fel engraifft, nad iawn credu mewn dim oddigerth ei bod yn bosibl i wneud darlun meddyliol o hono. Dyna'r dwfr yn troi yn ager, y fesen yn goeden. Gall meddwl craff olrhain y trawsffurfiad yn y fan yma a'i ddarlunio iddo'i hun fel gwrthrych. Ond nid yw hyn yn wir am yr enaid, ac eto nid oes yr un ffaith ag ydym yn fwy sicr o honi na bodolaeth ein heneidiau ein hunain. Yn wir y mae ein gwybodaeth o hono yn uniongyrchol tra nad yw ond anuniongyrchol o fater. Cefna Tyndall ar y gwirionedd hwn. Nid oes le ganddo yn ei gyfundrefn i'r fath ystyriaeth. A chan mai dyma'r ffynonell o'r hon y tardd ein holl symudiadau ai nid naturiol yw credu fod yna rywbeth cyffelyb y tu ol i'r holl greadigaeth.

Nid yw hon ond un engraifft o ffaeledigrwydd ymresymiad y materolwyr. Nid oes neb wedi gwneud mwy o wasanaeth yn y cyfeiriad hwn na Dr. Martineau. Yr oedd ei fywyd pur a syml yn nghyd a'i feddwl clir a nerthol yn cadw'n agored yn barhaus y drws trwy yr hwn y daw yr ysprydoliaeth sydd yn gwneud bodolaeth Duw nid yn unig yn wirionedd ond yn bresenoldeb mor agos, nes ein bod yn teimlo mai ynddo Ef yr ydym yn symud, bod a byw. Na, nid oes un ddeddf, hyd y gwyddom ni, fedr gyfrif am ddechreuad pethau. Yr oll fedrant ddweyd wrthym yw pa fodd y mae'r bydysawd yn myned yn ei flaen yn awr a dim pellach na hyn. Dirgelwch diamgyffred yw bywyd. A chaniatau y gwawria'r dydd pan y deuir i ddeall o dan ba amgylchiadau a thrwy ba

gyfryngau y'i gwneir yn bosibl, eto nid yw hyn yn egluro pa beth yw bywyd. Fel y byddo terfynau y gwybodol yn lledaenu y mae'r tuhwnt neu'r anwybodol yn aros o hyd. Rhoddwn groesaw i bob gwirionedd newydd—'does dim gormod gyda ni—ond peidiwn bod yn rhy barod i feddwl ein bod yn deall y cyfan. Os "Nyni a'r Tad un ydym" nid yw hyn ond mewn hanfod ac nid eto mewn sylwedd neu gyflawnder.

I'r sawl sydd am ddyfod yn fwy cynefin a'r ddadl bwysig hon yr ydym yn cymeradwyo llyfr Mr. Armstrong yn galonog i'w sylw. Nid yw gofod yn caniatau gwneud rhagor na chyfeirio ato yn awr. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn iaith syml a dealladwy. Gwna'r awdwr gyfiawnder a phob ochr. Nid yw yn arbed ei athraw hoff ac anwyl, James Martineau, lle y tybia ei fod yn ddiffygiol. Hwn oedd cynyrch olaf meddwl yr awdwr, ac yn wir y mae'n deilwng o'r aeddfedrwydd oedd wedi gyrhaedd trwy hir gynefindra a'r testyn. Wrth ei ddarllen yr oeddwn yn ei ddychmygu'n debyg i afal aeddfed yn syrthio o hono'i hun oddiar y pren. Bydded iddo gael ei ddarllen yn ol ei deilyngdod.

J.P.D.

URDDIAD Y PARCH. DAVID DAVIS, CASTELLHYWEL.

Cafodd Mr. Davis ei urddo Gorphenaf 15, 1773,* o dan hen dderwen ar dir Llwynrhydowen, yr hon sydd yn aros hyd heddyw. Bydd o ddyddordeb i'r darllenydd wybod pwy oedd y gweinidogion yn bresenol. Wrth gwrs yr oedd rhai o'r un lliw eu cred ag yntau yno, ond pwy oedd y lleill a anturiasant—oblegid anturiaeth oedd, ac un a fuasai dim llawer yn ymgymeryd a hi hyd yn nod heddyw—i ddangos trwy eu presenoldeb eu cydymdeimlad â'r gwr ieuanc a'u dymuniad o Dduw yn rhwydd iddo ar adeg mor bwysig yn ei hanes. Diben y llinellau hyn fydd dywedyd gair am yr un ar bymtheg gweinidogion oedd yn yr urddiad. Dyma hwy :

1. *David Thomas*, Llanedi. Gwr genedigol o ardal y Cilgwyn, yn Sir Aberteifi. Prin yw'r hanes am dano. Y mae dydd ei eni a dydd ei farw yn anhyspys ; ond yr oedd yn hen a methedig iawn pan olynwyd ef yn y weinidogaeth yn 1775 gan Evan Davies. Nid oedd yn iach yn y ffydd uniongred, a thrinir ef yn ddiarbed gan y Parch. Edmund Jones, Pontypwl, yn ei ddyddiadur yn 1773 fel un o'r cyfeiliornwyr.—E.A. iii. 503.

2. *David Williams*, Caerdydd a Watford, a anwyd yn Pwllypant, ger Caerffili yn 1709. Tybir ei fod yn y Coleg yn Nghaerfyrddin tua 1730-34, gan mwyaf dan ofal Mr. Thomas Perrott, yr hwn a fu farw Rhagfyr 26, 1733. Urddwyd ef yn Nghaerdydd, 1734. Yn 1738-40, yr oedd yn bleidiol iawn i'r mudiad diwygiadol dan Howell Harris, a phasiodd amryw lythyron cydrhyngddynt. Yn ei gapel ef yn Watford cynaliwyd cymanfa fawr 1743, George Whitefield yn y gadair. Yr oedd Mr. Williams yn ddyn o gymeriad difrychau, parchus yn ei eglwys a'r gymydogaeth. Cadwodd ysgol drwy ei oes, ond gwnaeth dau o waedgwn y dydd—y Parch. Philip Dafydd, Pen-

* YMOFYNYDD 1904, tud. 37.

main, ac Edmund Jones, Pontypwl, eu goreu i amharu ei ddefnyddioldeb a'i werth trwy godi'r cri o heresi ar ei ol. Cyhuddent ef o Belagiaeth, Ariaeth, Sosiniaeth, &c. Yr oedd hyny yn beth ofnadwy yn ngolwg y werin; ni fuasai'n waeth yn eu golwg pe gelwid ef yn rhomboid, parallellogram neu diagonal. Bu farw Mr. Williams Ebrill 5, 1784, oed 75. Wyr iddo ef oedd William Evan Williams, a fu farw tua 1870, ac a adawodd ei ystad, gwerth tua 40 mil o bunau i'r Ardalydd Bute, gar adael ei chwaer a'i luaws perthynasau heb ddim.—E.A. ii. 418.

3. *Dr. Jenkin Jenkins*, athraw'r Coleg yn Nghaerfyrddin. Dyn da, ysgolor ardderchog, ond yn perthyn i dras yr hereticiaid. Bu farw Hydref 28, 1780. Oed yn anhyspys.—Gweler am fanylion pellach YMOFYNYDD, 1890, t. 177; 1900, t. 251.

4. *David Griffiths*, Llechryd. Urddwyd ef yma yn weinidog Llechryd a'r Drewen, Ebrill 21, 1742, pan oedd yn 32 oed. Bu farw Hydref 20, 1794. Oed 84. Fel ei ragflaenydd David Evans a'i olynydd, Griffith Griffiths, tad y Parch. T. J. Griffiths, M.A. (Tau Gimel), ystyrid ei fod yn gosod rhy fach o bwys ar gredo. Gosodai bwys mawr ar fod buchedd dyn yn lan, ac yr oedd yn barchus iawn gan bawb o'i gydnabod.

5. *William Llewelyn*, gweinidog Maesyronen a Bailihalog. Ganwyd ef yn y Coety, bro Morganwg 1735. Desgrifir ef fel ysgolhaig rhagorol, pregethwr doniol, "ond yn waeth na bod yn ddiwerth canys yr oedd yn agos a bod yn wallgofddyn."—E.A. iv. 347. Nis gwyddom pa gymaint o lais rhagfarn sydd yn llefaru yma. Bu farw Ionawr 30, 1803. Oed 68.

6. *Evan Griffiths*, Capel Seion, olynydd yr enwog Samuel Jones, athraw y Dr. Richard Price. Urddwyd ef 1752. Cyhuddid ef o ogwyddo at Undodiaeth. Ei olynydd ef oedd D. L. Jones (Jones y Tutor). Bu farw Ionawr 25, 1802. Oed 77.—Gweler YMOFYNYDD 1889. t. 16.

7. *Philip Charles*, Coedycymer, lle'r urddwyd ef 1751, a'r lle y bu yn weinidog parchus hyd ei farwolaeth yn 1790 yn 69 oed. Arminiad neu Ariad oedd o ran ei gred, a heretic yn ngolwg ei ewythr, Philip Dafydd, Penmain, yr hwn sydd yn ei drin yn arw yn ei ddyddiadur. Yn 1754 cyhoeddodd dair pregeth o eiddo ei ragflaenydd Richard Rees, ar "Wirionedd y Grefydd Gristionogol."

8. *Thomas Lloyd.* Yr wyf yn tueddu i gredu mai gweinidog Trewyddel oedd hwn. Dywed y Dr. Thomas Rees (E.A. iii. 119) fod "rhai yn ei ddrwgdybio o fod yn gogwyddo at Arminiaeth, ac o ddal golygiadau nad ystyrid yn ysgrythyrol am y Drindod." Y mae hyn yn rhyfedd pan gofiwn ni nad oes dim son am Drindod yn un man yn yr Ysgrythyrau—dim o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Dadguddiad. Urddwyd ef yn gynorthwywr i'w frawd yr hwn oedd yn weinidog Brynberian a Threwyddel oddiar 1743. Yr oedd yn fyw yn 1782. Tybir ei fod yn ieuangach na'i frawd, yr hwn a anwyd 1703.

9. *Solomon Harris* oedd weinidog Henadurol yn Abertawe. Ganwyd ef ger y Cilgwyn, sir Aberteifi, Chwefror 21, 1726, a bu farw Awst 15, 1785. Addysgwyd ef yn ysgol Tim. Davies, Caeronen ac yn Athrofa Caerfyrddin 1746-50. Urddwyd ef Medi 4, 1751, D. Williams, Watford, a'r athraw Evan Davies yn gwasanaethu. Penodwyd ef yn athraw'r Coleg yn 1784, ond bu farw'r flwyddyn ganlynol. Yn 1774 cyhoeddodd bregeth ar "Anchwiliadwy Olud Crist," yr hon a draddodwyd ganddo mewn cwrdd gweinidogion yn y Watford; ac un arall, Saesneg, yn 1783,—"The Practical Influence of Christianity on believing Minds."—Gwel YMOFYNYDD 1875 tud. 122.

10. *Samuel Davies*, Ynysgau, Merthyr Tydfil. "Gwr ieuanc difrifol, yn meddu cymhwysderau rhagorol at y weinidogaeth." Urddwyd ef yn 1746. Aeth i'r Ynysgau yn 1750 i gynorthwyo ei dad. Cyhuddir ef gan Philip Dafydd nad oedd byth

yn pregethu "dim o neillduolion yr efengyl ond yn unig ddyledswyddau moesol." Bu farw Mawrth 18, 17 1. Oed yn anhyspys.—Gweler YMOFYNYDD 1900,—Dadl Ynysgau.

11. *Josiah Rees* (1764-1804), Gellionen. Mab Owen Rees, Aberdar. Am fanylion ei hanes, darllener Hanes Gellionen yn YMOF. 1873; 1900, tud. 268, gyda darlun; Dict. Nat. Biog.; Christian Life, May 25, 1895; ar bwnc golygiaeth "Eurgrawn" 1770, gweler YMOFYNYDD 1886, t. 69; 1887, t. 86, 91; 1890, t. 173 (llythyr T. R. Davis); "Cymru" (O.M.E.), Medi 1902, Mawrth 1903, erthygl gan Mr. J. H. Davies, Cwrtmawr, ac un gan arall yn rhifyn Mai 1903, gyda nodyn y Gol. ar y diwedd.

12. *David Williams*, Watford. Anhawdd penderfynu hyd at sicrwydd pwy oedd hwn. Os hanesydd Sir Fynwy, 1796, a sylfaenydd y "Literary Fund" 1790 oedd, ganwyd ef ger Caerffili yn 1738, ac addysgwyd ef yn ysgol hen weinidog ei rieni (D.W.),* ac wedi hyny yn Nghaerfyrddin. Bu'n weinidog Exeter 1761-1770. Cyrhaeddodd enwogrwydd mawr yn y byd llenyddol, a bu farw Mehefin 29, 1816. Oed 78. Yr oedd o gymeriad moesol pur ac yn cael edrych i fyny ato gan brif ddysgedigion Ewrop. Dywed Dr. T. Rees (E.A. ii. 414) y "buasai ei enw lawer yn anwylach yn mysg y Cymry, pe buasai yn glynu wrth grefydd ei hynafiaid."

13. *Simon Williams*, Tredwstan. Ganwyd ef 1730; yr oedd yn athrofa Caerfyrddin 1747-51; urddwyd 1753; yn Nhredwstan 1765-1810. Bu farw 1810. Oed 80.—E.A. iv. 272.

14. *Morgan Jones*, gweinidog Pentre-ty-gwyn a Chefnarthen, fe allai, ond nid wyf yn sicr. Bu ymraniad yn Cefnarthen yn 1740, yr hwn a fu'n achos diflasdod am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yma ddau weinidog ar y pryd—un yn Galfin a'r llall yn Armin. Ni adferwyd heddwch am rai blynyddoedd wedi marw'r ddau. Bernir mai 1771 yr ymsefydlodd Mr. Jones yn weinidog yma, ac mewn cyfarfod gweinidogion a gynaliwyd Awst 19, 1772, y cyhoeddwyd heddwch. Simon Williams, Tredwstan, ac Owen Davies, Trelech, oedd y pregethwyr. Owen Davies wedi hyny gychwynodd Rhydyparc, ac a fu'n weinidog yno wedi hyny am 20 mlynedd.—(YMOFYNYDD 1884, t. 124).

15. *Daniel Gronow*, Bala, aelod gwreiddiol yn y Mynyddbach; C. Caerfyrddin 1757-60; Ciliau 1760-69; Bala 1769-79; Mixenden Ionawr 1780-Hydref 1782; Bradwell 1782-85. Bu farw 1796. Dywed ei athraw Evan Davies iddo enwogi ei hunan fel un anuniongred tra'n fyfyriwr yn y Coleg. Profodd ei hun yn bregethwr llwyddianus a bugail gofalus yn y Bala. Cafwyd ei Saesneg yn ddiffygiol yn Mixenden. Ceir dau gyfeiriad ato yn Nhelyn Dewi:

"Mi ges lawer odfa wiw
Pan yn ifanc yn Mhenrhiw,
Pan bai'r Ifans, Llwyd a *Gronw*
Ar eneidiau'n daer yn galw.

16. *David Lloyd* (1725-79). Yn gyd-weinidog ag ef yr urddwyd D.D. Yr oedd Mr. Lloyd yn ddyn galluog iawn, yn ysgolor mawr, yn bregethwr godidog, ac yn fugail llwyddianus. Bu'n fwy na neb arall yn foddion i gadarnhau ac i wneuthur yn effeithiol y gwaith oedd ei ragflaenydd Jenkin Jones wedi gychwyn. Dewiswyd ef i'r weinidogaeth gan bobl Llwynrhydowen, pan oedd ond newydd orphen haner ei amser yn y Coleg, a chyn ei fod yn llawn deunaw oed. Yn 1745 yr ordeiniwyd ef. Yr oedd yn fardd o gryn nod; ac y mae'n drueni na cheid ail-argraffiad o'i weithiau. Bu farw yn ddyn cymharol ieuanc. Gweler "Y Geninen" am Gorphenaf 1905, tud. 180.

* Rhif 2 uchod.

ANN CERIDWEN REES, M.D.

Bu farw'r foneddiges dalentog hon, yn dra sydyn, yn New Jersey, Hyd. 25ain. Dychwelasai i Gymru i weled ei mham a'i nhain yn Mhentregwenlais, Llandybie, ddydd Sadwrn, Medi 16eg. Treuliodd ychydig dros dair wythnos yn hapus iawn yn ei hen gartref, a dychwelodd i'r Gorllewin yng nghwmni ei chefnder, Mr. Henry Job, dydd Mawrth, Hydref 10fed. Ysgrifenai yn bur hapus o Queenstown, ond cyn cyraedd Efrog Newydd, tra'r llong wedi ei dal yn y niwl gan' milldir o'r porthladd, bu raid galw am feddyg. Gwelwyd iddi gael anwyd trwm, a gwnaethpwyd pob peth dichonadwy iddi gan y meddyg a'i chefnder. Wedi cyraedd ei chartref, cafwyd pedwar meddyg yno, a buont wrth eu gwaith goreu byd fedrent i drechu angeu. Datblygasai'r afiechyd erbyn hyn yn beth a elwir *acute double lobar pneumonia*, a gwnaed yr oll a allai dyfais a pharch i achub bywyd y feddyges anwyl, eithr bu farw yn dawel am 5.18 o'r boreu (Mercher) a nodwyd, a chladdwyd hi y dydd Gwener canlynol, gan dorf fawr o gyfeillion galarus. Nid oedd ond 31 oed. Hanai o hen deulu parchus o Undodiaid. Wyres ydoedd i'r diweddar Mr. Job Davies, Llandybie, ac etifeddodd oddiwrtho lawer o ddawn lenyddol a barddonol y teulu. Cynghaneddai gyda hawddineb. Gyrrodd ysgrifau difyrus a gwerthfawr i'r "Cymru"; ac ar dudalenau'r "Drych" dadleuodd gyda gallu a medr mawr ar "Christian Science" gyda'r Dr. H. O. Rowlands. Bu yn ddisgybles i Watcyn Wyn yn ysgol y Gwynfryn, ac ymfudodd i'r Amerig yn 1893. Penderfynodd raddio fel meddyges, a llwyddodd i enill M.D. o'r Women's Medical College yn 1898. Gosododd i fyny ei phabell fel meddyges yn New Jersey, lle'r oedd ei modryb eisoes yn byw, ac yn fuan daeth i sylw a pharch mawr. Ymdyrrai'r lluoedd ati, ac nid yn fuan yr anghofir hi gan dlodion y cylch. Ni wrthodai ei chymorth parod i neb, ac er fod golud byd yn dechreu dylifo ati, gwell oedd ganddi weini ar y tlawd heb obaith tâl, na gadael iddynt fod heb gynorthwy meddygol. Yr oedd Miss Rees (Ceridwen oedd yr enw barddol a dderbyniasai yn Ngorsedd Eisteddfod Merthyr, 1901) yn un o alluoedd meddwl cryf, a gallai roi rheswm am y gobaith oedd ynddi gyda phwyll ac annibyniaeth mawr. Ni ddinystriasid hi ychwaith gan ei henwogrwydd a'i safle fel meddyges. Yr oedd mor naturiol ag afon Gwenlais, ac mor hawddgar a gwrid y rhosyn. Rhyfedd yw meddwl fod un mor gyflym ei throed a nwyfus ei hanian yn dawel dan y briddell ar lechwedd New Jersey. Y nef a gysuro ei mham dorcalonus a'i nhain oedranus, lesg. "Dos yn ol at mam" oedd un o'i geiriau diweddaf i'w chefnder, "a bydd yn fab iddi." Mae yntau bellach yn ol yn Mhentre Gwenlais (wedi gadael y gwaith fel fferyllydd y rhwyddodd hi ei ffordd tuag ato), ac yn bwriadu aros dros y gauaf, os nad yn hwy. Anodd iawn yw dirnad amcan troion dyrys fel hyn. Meddai Hwfa Mon, sydd yntau bellach wedi croesi :

"Torri blodyn mewn munudyn
O wyrdd ddyffryn hardd ei effros,*
Gadael draenen ac ysgallen
A mieren lem i aros."

Da yw credu y gŵyr y nefoedd yr amcan, ac fod pob peth yn dda. Un o eiriau tawel yr anwyl Ann cyn huno oedd "God is love." Heddwch i lwch yr hoffus un !

G.

* Math o lysiau.

MARWOFION.

HYDREF 21, Anne Thomas, Derlwyn, Llandyssul, yn 81 oed, ar ol cystudd poenus. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent newydd y Llwyn pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. James ac E. O. Jenkins. Yr oedd yn un o hen ffyddloniaid y Llwyn. Parhaodd ei dyddordeb yn yr achos hyd y diwedd, a thystiai ei holl fywyd fod proffes o grefydd yn golygu rhywbeth iddi. Hi fagodd y diweddar Barch. W. E. Davies, Cribyn, ac yr oedd llawer elfen yn y cymeriad gloyw hwnw yn ddyledus i'w fodryb.

HYDREF 28, ar ol cystudd byr yn 59 mlwydd oed, Hannah, anwyl briod Evan Davies, Nantmeddal, plwyf Llanarth. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn mynwent eglwys Ciliau-Aeron. Gwasanaethwyd yn y ty ar yr achlysur galarus, gan y Parch. Mr. Lloyd, curad, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Mr. Prydderch (A.) a J. Davies, Alltyplaca. Gadawodd yr ymadawedig ei phriod a phump o blant mewn galar dwys ar ol un fuasai yn briod ffyddlon ac yn fam dyner iddynt. Yr oedd y cynhebrwng lluosog yn ddangoseg o'r parch mawr oedd i'r teulu yn y gymydogaeth.

TACHWEDD 5, yn 43 oed, bu farw Jane, anwyl briod David Thomas, Talgrwnmawr, ger Llanwnen, ar ol cystudd maith a chaled. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i John Lloyd, gynt o Pantywilco, a fu un adeg mor adnabyddus fel cerddor. Claddwyd Iau canlynol yn mynwent Llanwenog, pryd y talwyd iddi y gymwynas olaf gan dorf luosog. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod a'r ddau blentyn yn eu galar. Pregethwyd yn y ty gan weinidog Capelygroes, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan y Parchn. Mr. Williams, Rhydygwin, a Mr. Lewis, Ficer Llanwnen.

TACHWEDD 9, yn y Grange, Aberaman, Aberdar, ar ol cystudd hir a thrwm, Mr. Morgan Richard David yn 52 oed. Claddwyd ar y 14eg yn mynwent eglwys y plwyf. Methodd gweinidog yr H. D. Cwrdd gymeryd rhan yn y gwasanaeth am ei fod yn rhwym mewn man arall ar y pryd. Gedy Mr. D. ar ei ol mewn galar, weddw a chwech o blant—tri bachgen a thair merch.

With silence only as their benedic-
God's angels come, [tion,
Where, in the shadow of a great
affliction,
The soul sits dumb !

TACHWEDD 10, yn ddisymwth iawn, Mrs. Orchard Davies, Cwmrig Cottage, Heol y Felin, Aberdar, chwaer Mr. Wm. Thomas o'r un lle. Ganwyd hi Hydref 28, 1835, yr oedd felly newydd orphen ei 70ain oed. Yr oedd wedi dilyn ei goruchwylion arferol o gylch y ty hyd ganol dydd, ond tua 4.30 yn y prydnawn diflanodd yr elfen fywiol, fel nad oedd ond yr hen dy o bridd yn aros. Yr oedd Mrs. Davies yn un o'r serchusaf o wragedd, hoff iawn gan bawb a'i hadwaenai. Ddydd yr angladd gwasanaethwyd yn y ty ac ar lan y bedd—bedd ei phriod—yn mynwent eglwys Blaengwrach, Cwmnedd, gan weinidog yr H. D. Cwrdd, lle'r oedd yr ymadawedig wedi bod yn aelod ffyddlawn am flynyddoedd lawer.

" If the spirit ever gazes
From its journeyings, back ;
If the immortal ever traces
O'er its mortal track ;
Wilt thou not, O sister, meet us
Sometimes on our way,
And in hours of sadness, greet us
As a spirit may."

TACHWEDD 15, yn 25 mlwydd oed, Llewelyn, mab John ac Elizabeth Bowen, Trebanos, oherwydd damwain ofidus yn y lofa. Daeth tyrfa fawr ynghyd y Sadwrn canlynol i hebrwng ei weddillion i gladdfa Gellionen, pryd y gwasanaethwyd

ar yr amgylchiad gan Dr. Griffiths, Ilkeston, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. T. G. Richards, Gosen, Trêbanos. Bachgen tawel, ac un o'r cymeriadau gloewaf oedd Llewelyn. Yr oedd yn aelod selog o Gapel y Graig, Tebanos, ac yn un o'r rhai ffyddlonaf. Nawdd y Tad goreu dros y tad a'r fam, y brodyr a'r chwiorydd a'r perthynasau oll yn eu galar.

MANION AC HANESION.

ARDDANGOSIAD Y CANWYLLAU. —Yn YR YMOFYNYDD am Chwefror 1865, ceir y bregeth a draddodwyd gan y Parch. Owen Evans, Cefncoed, yn y cyfarfod cwarterol yn y Wig, Rhagfyr 29, 1864, ac yn yr un rhifyn ceir cofnodiad ei farwolaeth, a gymerodd le Ionawr 9, yn 57 oed. Y cyfarfod hwn oedd adeg ymweliad cyntaf ysgrifenydd y llinellau hyn a'r Wig; ac y mae'n cofio'n ffres iawn yr olygfa ryfedd a gafodd. Wrth fyned i fewn y noson flaenorol, tarawyd ef a syndod wrth weled y capel wedi ei addurno ag ugeiniau lawer o ganwyllau o bob lliw a maint. Ymddangosai'r canwyllau ar y pwlpud tua dwy droedfedd o hyd ac o drwch cyfartal. Yr oedd y ddefod hon o addurno'r capel wedi bod mewn arferiad am flynyddau lawer, ond ni roddai neb hanes ei dechreuad. Rhoddion aelodau y gynulleidfa oedd y canwyllau, ar gyfer rhyw ddydd penodedig, a cheid digon o honynt fel hyn i ateb gofynion y gynulleidfa drwy'r flwyddyn.

THE NEW HYMNAL. — Y mae'r brodyr Presbyteraidd yn Scotland wedi ymryson ac ymryson cymaint fel y cyfeirir atynt weithiau fel *Split Peas (Ps)!* Yn dra thebyg y mae'r Undodiaid—ymranant i ddangos eu casineb at ymraniad. Nid ydynt ond plaid fechan, ond y mae eu casineb at sect gymaint, fel yr ymranant mewn gwrthdystiad yn erbyn sectyddiaeth gan ffurfio sect newydd —sect o un eglwys, a hono byth a hefyd yn barod drachefn i ymranu. Methwn gytuno ar bwnc yr enw, nis gallwn foddloni ar yr un papyr, un llyfr Emynau, un coleg, &c. Gellid meddwl fod Emynau y *New Essex Hall* yn dda ddigon i ateb ein heglwysi Seisnig; ond er syndod cawn fod pwyllgor y llyfr newydd yn llwyr anwybyddu hwnw, fel y gellir tybied nad oes yr un llyfr Emynau newydd wedi ymddangos oddiar 1874, pan gyhoeddodd Martineau ei lyfr diweddaf. Yr ydym wedi darllen y "*Preface*" i gael gweled beth ydyw'r esgus roddir dros y llyfr newydd, ac ni chawn ond esgusion gweinion gweinion. Y mae'r llyfr yn un da, braidd y gallai beidio bod gyda'r fath gyfoeth o emynau sydd yn awr o fewn cyrhaedd. Ceir ynddo 658 o emynau, 534 sydd yn y "*New Essex Hall*; i mi byddai'r llyfr yn well pe gadewid rhyw 150 o honynt allan. Gesyd y Pwyllgor bwys ar yr emynau dan y penawd "*Christian Year.*" Tlawd ddigon yw y rhan amlaf o'r rhai hyn, ac y mae'r goreu o honynt yn yr "*Essex Hall.*" Y mae'r argraffydd (Novello) wedi gwneuthur ei waith yn dda, ond y mae'r golygwyr wedi gadael lluaws o wallau i ddianc. Mewn undeb mae nerth.—T.C.U.

PENTRE A CHLYDACH VALE.—Deallwn fod y Parch. D. Rhoslwyn Davies, wedi ymddiswyddo o ofal

gweinidogaethol y ddwy eglwys hon, ar ol llafurio gyda chymeradwyaeth am dros dair blynedd. Bwriada Mr. Davies ymadael ddiwedd y flwyddyn. Yn anffodus mae nifer y pwlpudau gweigion yn yr enwad yn Sir Forganwg yn ychwanegu, gobeithio bydd yr eglwysi hyny yn gwneud pob ymdrech i gadw'r tân yn nghyn, ac y cant yn fuan fugeiliaid cymhwys i ofalu am danynt.

LLYFRGELL MR. SPURGEON.—Dywedir yn y newyddiaduron fod y gweddill o honi, yn cynwys gan mwyaf lenyddiaeth dduwinyddol y Puritaniaid, wedi bod yn y farchnad yn y wlad hon am rai blynyddau, ond heb gyfarfod a phrynwr. Nid oedd un coleg Seisnig na Chymreig, o ran hyny, yn barod i gynyg. Nid yw yn syndod. Gormod diswyl i'r ugeinfed ganrif droi 'nol i'r cyfnod Puritanaidd, mwy nag i'r canol oesau, am ei duwinyddiaeth. Mae pob math o ymchwiliad wedi myned rhag ei flaen wedi hyny, ac nid y lleiaf, wybodaeth am y Beibl a hanes Cristionogaeth, yn neillduol yn ei dyddiau bore. Chwith o beth fyddai 7,000 o lyfrau y cyfnod Puritanaidd ar y gwyddorau, megys *Mathematics*, *Chemistry*, *Physics*, &c., i roddi *start* i goleg neu brifysgol yn yr oes hon. Ac mae'r goleuni newydd wedi gwneud yr hen lawlyfrau duwinyddol yn waeth na diwerth. O barch o bosibl i'r pregethwr enwog a'u meddai unwaith ac a gymerai ddyddordeb neillduol i'w casglu at eu gilydd, mae Coleg Jewel (Bedyddwyr) yn Missouri yn yr Unol Dalaethau wedi sicrhau y llyfrgell, ac mae cadwraeth y llyfrau yn ddiogel am flynyddau lawer.

Y PRIFATHRAW RHYS AR Y WEINIDOGAETH GYMREIG.—Dyma'r sylw, a charem wybod beth olyga'r Prifathraw wrtho. Dyfynwn o adolygiad yn y *South Wales Daily News*, "Mae holl gorff gweinidogion crefydd yn Nghymru yn symud yn mlaen yn yr un a'r unrhyw gyfeiriad, a hwnw yw, yr ysbryd offeiriadol—*Sacerdotalism*." Ystyriwn y geiriau yn bwysig yn wyneb safle a chyfrifoldeb yr hwn a'i traethodd; a byddai eglurhad o'r rhesymau sydd wedi ei arwain at y casgliad hwn yn dra dyddorol.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunem ail goffa y tro hwn eto yr arholiadau yn y gwanwyn yn y pedair Safon. Ceir y llyfrau, sef "Bannau Ffydd," pris 3c. a'r *postage*, yr Holwyddoreg, 1c, a'r gofyniadau i blant oddiwrth yr Ysgrifenydd—y Parch. L. Williams, Rhydygwin.

CYNGRAIR YR EGLWYSI.—Un o'r newyddion diweddaraf o fyd crefyddol yr Unol Dalaethau yw fod yr Undodiaid a'r *Universalists* wedi eu cau allan o Gynghrair newydd yr eglwysi sydd ar gael ei ffurfio yno. Yr oedd tri chynrychiolwr wedi eu dewis gan yr Undodiaid, sef Dr. Everett Hale, Dr. Samuel Eliot, a'r Anrhydeddus J. D. Long, diweddar ysgrifenydd y Llynges—y tri yn mhlith y mwyaf adnabyddus yn y Talaethau—i fod yn bresenol yn y cyfarfod cyntaf. Gwrthodwyd eu gollwng i fewn ac mae y mater wedi achosi cryn gyffro, yn gymhwys fel y gwnaeth rhywbeth tebyg nid neppell o swyddfa'r YMOFYNYDD yn ddiweddar. Mae y cwestiwn o ddyddordeb cyffredinol. Yr un yw'r egwyddor ar lan yr Hudson ag ar lan Teifi, ac yr ydym wedi penderfynu cyhoeddi yn YR YMOFYNYDD cyntaf am 1906 bregeth Dr. M. J. Savage, o Eglwys y Messiah, New York, yr hwn a ddelia yn ei ffordd glir, neithol a tharawiadol ei hun ar yr hyn sydd yn bwnc y dydd ar faes "Yr Ysmotyn Du" yn gystal ag yn yr Unol Dalaethau. Hyd yn hyn yr ydym gydag ychydig iawn o eithriadau, wedi cyfyngu ysgrifau YR YMOFYNYDD i rai gwreiddiol. Mae pwysigrwydd y cwestiwn a safle uchel y pregethwr fel un o'r blaenaf yn America yn ddigon o reswm i wneud y tro hwn yn eithriad.

CWM SYCHBANT.—Da genym glywed am y mudiad i godi capel newydd yn y lle addawol hwn. Gwell hwyr na hwyrach. Mae man cyfleus wedi ei brynu ar delerau ffafriol iawn oddiwrth Frank Morgan,

Ysw., M.A., Blaenblodau, ac athraw Hanes yn Ngholeg Keble, Rhydychen. Eglwyswr yw Mr. Morgan, fel y gellid casglu oddiwrth ei gysylltiad a Choleg Keble, ond nis gallai un Undodwr ymddwyn yn fwy anrhydeddus nag y gwnaeth ef yn y mater hwn, a da genym am y cyfleusdra i gydnabod hyny. Mae y gwaith wedi ei ddechreu, y gweinidog a'r bobl yn ymdrechu a'u holl egni, a phob gobaith am gyflawniad llwyddianus a hyny yn fuan o'u holl ddymuniadau yn nglyn a'u ty cyfarfod. Buont wrth gychwyn mor ffodus a chyfarfod a chyfaill sydd wedi bod yn hynod garedig. Cyfeiriwn at y Parch. Ceredig Jones, M.A. Bradford. Yr ydym wedi clywed ei fod wedi sicrhau yn Lloegr yn barod ryw £120 at y Drysorfa Adeiladu. Dymunwn bob llwyddiant i'r mudiad.

PETHAU ANMHOSIBL.

"Codi Coedyfoel o'r gwaelod,
A'i chwyrn daflu i bellder mawr,
Enwi amlder y mân dywod,
Cyfri' nifer gwlith y wawr."

AMNON (Anghyhoeddedig).

TAITH Y PERERIN.

"Teithio wyf anialdir prudd-der
Megys llawer aeth o'm bla'n ;
Dyn a anwyd i gael blinder
Fel yr hêd gwreichionen dân ;
Bydded oll yn fendith imi
Er lladd gwagedd ar bob llaw,
Oll i'm harwain at ddaioni
Y byd hwn a'r byd a ddaw.

AMNON (Anghyhoeddedig).

"WRTH EU FFRWYTHAU YR ADNABYDDWCH HWYNT."

"Adnabyddir yn fynychaf
Driniaeth daear wrth ei grân ;
Gellir didol, y cynhauaf,
Efrau o blith y gwenith glan ;
Adnabyddir prenau'r winllan
Wrth eu ffrwythau bob yr un,
Adnabyddir calon aflan
Wrth weithredoedd ffiaidd dyn.

AMNON (Anghyhoeddedig).

DIWEDD BLWYDDYN.

I fynwent fawr y blwyddi gynt
A chalon drom, rhaid hwylio'm hynt;
I mi, cyfeilles fwyn—flwydd oed—
Yn mhlith y meirwon heddyw roed :
Mewn galar, mud yw'r adar mân,—
A phrudd yw trem yr huan glan ;
Holl anian sydd ar fryn a dôl
Yn welw'n wylo ar ei hol.

Ow ! Ddiwedd blwyddyn ! Deigryn dardd [hardd
Pan ddaw i'm cof mor wyn, mor
Ac mor addawol ydoedd gwawr
Yr un mewn nudd fachludai'n awr ;
Nid fel yr afon gasgla fwy
O olud fyth wrth fyned drwy
Ei thaith y bu ei thirion rawd,—
Hi rodd yr oll, bu farw'n dlawd.

Ha ! Ddiwedd Blwyddyn ! Nodyn [yw
O gariad ysgrifenodd Duw
I'r Cristion llesg mewn anial wlad
Yn dweyd mai nes yw ty ei Dad ;
A dwêd mai dwyn bendithion fyrdd
Cyn hir a wna y gwanwyn gwyrdd,
Ac yna fry yn nhy ei Naf
Daw dyddiau hedd y dedwydd haf.

C.

Y SEREN OGLEDDOL.

(Buddugol Llanarth, 1904).

Saerniodd Ior seren dda—ac eglur,
O'r gogledd ni wyra ;
Y gwiw forwyr gyfeiria,
Er pyg nos o'r pegwn ia.

Y DANGOS-LUN (*Cartoon*).

(Cyd-fuddugol Llanarth, 1903).

Y Dangos-lun gyfuna-swyn a gwawd,
Sèn a gwên gymbletha ;
Mewn tyllog wisg mantella
Briod wers a bwriad da.

Cwrtnewydd. CLEDLYN.

IN MEMORIAM.

Diflanodd ef i'th gynes gol,
A llwybr gwyn sydd ar ei ol ;
O Dduw, rho help i ninau fynd
Yr unrhyw ffordd nes cwrdd a'n ffrynd.

Y Wiwer a'r Mynydd.

Darfu i'r Wiwer a'r Mynydd
Ffraeo a'u gilydd ; [bach ! "
A'r mynydd alwai'r wiwer, "Sprotyn
Atebodd hithau :—
'Rwyt ti'n ddiau'n ddigon mawr,
A minau'n fach ; [wydd
Ond rhaid i bob màth o beth a thy-
Gael eu cym'ryd gyda'u gilydd,
I wneud i fyny'r flwyddyn
A'r cylch o'r pen i'r terfyn ;
Ac nid wyf fi'n ei 'styried e
Yn un gwarth i gadw'm lle ;
Os nad wyf gymaint ag wyt ti,
Nid wyt tithau
(Pob parch i'th holl rinweddau)
Mor fychan ag wyf fi,
Na haner mor wisgi !
Nid wy'n dweyd
Nad wyt ti'n gwneud
Ffordd bert iawn
I wiwer deithio ar hyd-ddi
Y bore a'r prydnawn.
Y mae talentau'n gwahaniaethu,
Y mae pob peth wedi ei wneud yn ddoeth a chymen ;
Os nad alla'i gario gelltydd ar fy nghefen,
Nis gelli dithau dori cneuen !—

Ralph Waldo Emerson.

Pan wna'r niwloedd, &c.

Pan wna'r niwloedd mewn urddunaiant
Dreiglo i ffwrdd oddi ar y fron,
A'r pelydrau haul pan wenant
Ar yr eigion maith yn llon ;
Cofiwn am yr hen addewid
Gafwyd drwy yr enfys gynt ;
Ni gawn adwaen bawb ein gilydd
Pan â'r niwloedd gyda'r gwynt.

Cydgan :

Rhodio'n unig mwy ni chawn,
Adwaen bawb ein gilydd wnawn,
Pan y gwawria dydd llawenydd
Hyfryd ddydd pan gawn gydgwrdd,
Ni gawn adwaen bawb ein gilydd,
Pan y chwytha'r niwl i ffwrdd.

Mynych rodiwn daith ein bywyd
Gyda chalon lesg yn mla'n,
Gan ymboeni yn ein gofid,
Oll a'n maesydd ar wahan :
Ond bendithia y Tad Gore,
Ein holl lafur ar ein hynt,
Pan ymgasglwn yn y bore
Wedi i'r niwl fyn'd gyda'r gwynt.

Cydgan—Rhodio'n unig, &c.

Down yn nghyd yn llawn llawenydd
At yr orsedd ymneshawn,
Wyneb wyneb gyda'n gilydd
Adwaen bawb ein gilydd wnawn :
A chaiff cân ein cydgyfarfod
Seinio dydd o fythol hynt ;
Pan ddiflano'r niwl a'r cysgod
Gyda'r wawr o flaen y gwynt.

Cydgan—Rhodio'n unig, &c.

Gofal Duw.

Y robin goch a glywais yn canu ei fore gân,
Gan helpu ei wreigan siriol i borthi'r adar mân ;
Ac ataf daeth ryw sibrwd drwy'r coed yn dweyd i mi,
"Y Duw sy'n porthi'r adar, Efe a'th bortha di."

Rhosynau hardd a welais, yn tyfu'n goch a gwyn,
Ni fu erioed frenhines oedd harddach na'r rhai hyn ;
Ac ar eu dail ysgrifen oedd felus wers i mi,
"'Rhwn wisgodd y rhosynau, Efe a'th wisga di."

O diolch i'r Tad nefol, yn mysg trafferthion byd,
Am roi'r fath eiriau graslawn i nerthu'm ffydd o hyd ;
Mae gair yr Athraw'n sibrwd rhyw felus hedd i mi,
"Y Duw ofala am adar ofala am danaf fi."

Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

DO YOU KNOW

A GOOD THING FOR—

HEADACHE, TOOTHACHE, and NEURALGIA?

Is a question often asked and, as a rule, every person suggests a different remedy. As a guide to all sufferers of these distressing complaints, we have no hesitation in recommending . .

DAVIES' NERVINE POWDERS.

One dose generally relieves the most agonising pain.

Sold in Boxes 1s. 1½d. each post free.

From THOS. DAVIES, M.R.P.S., Chemist, Llandyssul.

YOUR EYESIGHT.



Is a most precious gift. If it is defective do not let it suffer from want of

SUITABLE GLASSES.

Being in possession of the most approved instruments, the sight can be accurately tested.

Sufferers should lose no time

IN CONSULTING

D. JONES

11, HIGH STREET,

Qualified by Examinations, London.

(Opposite Royal Oak Hotel).

LAMPETER.

WEDDING RINGS. RELIABLE WATCHES.

Lowest Cash Value.

☞ Persons that cannot call will do wise to write.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

ALBION, LLANDYSSUL AND PENCADER.

BOOTS, SHOES, AND SLIPPERS,

The Largest and Best Selected Stock in the Three Counties.

Sole Agent for the Dry Foot Brand. Acknowledged to be the Best Boot in the Market. Every pair guaranteed.

Repairs neatly and cheaply done by experienced men on the premises.

GRIFFITH DAVIES.

EVANS BROS.,

Manchester House, Llandyssul.

TAILORS, OUTFITTERS, HATTERS, HOSIERS, &c.

A large Assortment of Gent's and Youths' Rainproof Coats.

Mourning Orders promptly executed.

An Inspection will be much appreciated.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

. . A large Consignment of . .

HYACINTHS, TULIPS, and other DUTCH BULBS.

The Best Varieties.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Sotck.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Floor.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS)

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.

Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

Mistresses: Miss Lena Jones, B.A., Wales; Cambridge Teachers' Diploma.

Miss M. A. Roberts, B.A., Wales;

Classics and Modern Languages: J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).

Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science: D. James Davies, B.Sc. (Wales).

Drawing: Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art.

Instrumental Music: Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music; Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery: Miss E. W. Williams.

First Class Diplomas in Laundry and Cookery

Tuition Fee: £1 per Term or £3 per Annum. Music (Pianoforte) £1 1s. per Term.

Implements for all kinds of good farming.

First Class Ironmongery

FOR THE

FARMER, BUILDER, AND HOUSEHOLDER,

AT

WILLIAM JAMES',

IRONMONGERY AND IMPLEMENT DEPOT,

LLANDYSSUL.

ALSO AT NEW QUAY.

TYSSUL STORES. LLANDYSSUL.

D. CHANNING THOMAS,

GROCER, TEA DEALER & GENERAL MERCHANT,

Try D. C. T.'s TEAS—3 different blends of every price. One sure to please.
Prices—1/8, 2/2, and 2/6. Quality at price cannot be beaten.
Write for Free Sample.

This Space To Let.

Apply—

EDITORS, LLANDYSSUL.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents. . . . . .

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c. . . . . .

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.